

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ein hymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal a chael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu a bwlio o bob math. Rydym ni'n hyrwyddo amgylchedd gweithio da a chytûn lle caiff pawb eu trin â pharch a lle na fydd unrhyw un yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu o unrhyw fath.

Mae'n ofynnol i'n gweithwyr ac unigolion sy'n gweithio dan drefniadau contract ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i ddarparu cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth, ac i osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Daeth Dyletswydd y Sector Cyhoeddus i rym ar 5 Ebrill 2011. Yn unol â'i ofynion, rydym wedi ymrwymo i roi sylw dyledus i:

- gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth
- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng gwahanol grwpiau
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

## Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Mae deddfwriaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a gyflwynwyd yn 2017 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n cyflogi dros 250 o weithwyr gyhoeddi eu data bwlch cyflog rhwng y rhywiau bob blwyddyn. Mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn golygu'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog dynion a menywod, wedi'u mynegi mewn perthynas ag enillion dynion.

[Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2018](#) (333.37 KB)

[Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2017 \(Saesneg yn unig\)](#)

## Adroddiad amrywiaeth

Mae ein hadroddiad amrywiaeth blynyddol yn adeiladu ar adroddiadau blaenorol ac yn cyflwyno crynodeb a throsolwg lefel uchel o ddata cydraddoldeb, gan gynnwys proffiliau'r gweithlu a gwybodaeth data monitro ar weithgareddau cyflogaeth.

[Adroddiad Amrywiaeth yr ASB - Cyhoeddwyd Gorffennaf 2017](#) (1.13 MB)

## Amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth (Saesneg yn unig)

Mae ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn nodi blaenoriaethau cydraddoldeb ac amcanion mesuradwy. Mae'r adroddiad yn crynhoi ein cyfeiriad strategol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n dangos sut yr ydym ni'n cyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb ar lefel strategol, a cheisio parhau i wneud hynny.

[Equality and diversity objectives: April 2012](#) (256.06 KB)